# Hysbysiad Statudol i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yn Ysgol Penygelli o fis Medi 2027.

## Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rhoddir hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar ôl ymgynghori â'r sawl angenrheidiol, yn bwriadu lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yn ysgol gynradd 'Ysgol Penygelli, Heol Glyndŵr, Coedpoeth, Wrecsam, LL11 3HA' o fis Medi 2027.

**Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

**Adran 42 Cynigion i newid ysgolion prif ffrwd**

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion:

(a) i wneud newid rheoledig i ysgol gymunedol;

(b) gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 (agor neu gau chweched dosbarth ysgol) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;

(c) i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 10, 11, 12 neu 13 o Atodlen 2 (cynyddu a lleihau capasiti) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig os nad oes gan yr ysgol honno gymeriad crefyddol.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn.  Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd, a barn ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol yn Ymgynghoriad cynnig i leihau niferoedd y disgyblion sy'n cael eu derbyn a gyhoeddir yn Ysgol Penygelli

Cynigir gweithredu'r cynnig o fis Medi 2027.

Nifer presennol y disgyblion yn yr ysgol yw 233. Ar hyn o bryd, capasiti'r ysgol yw 315 o leoedd. Y capasiti arfaethedig unwaith y bydd y cynnig wedi'i weithredu'n llawn ym mis Medi 2027 fydd 210.

Drwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y galw am leoedd ysgol yn Ysgol Penygelli drwy leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn yr ysgol o 45 i 30.

Mae hyn yn golygu y bydd nifer y lleoedd sydd ar gael i blant yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2027, a phob rownd dderbyn ddilynol i'r dosbarth derbyn, yn 30. Yn ogystal, bydd nifer y lleoedd meithrin yn gostwng o 45 lle rhan amser i 30 lle rhan amser.

Byddai nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 o fis Medi 2027 yn cael ei gapio ar 30 at ddibenion trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, o fis Medi 2027, at ddibenion pontio yn ystod y flwyddyn, bydd nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn cael ei gapio ar y Nifer Derbyn diwygiedig o 30. Ni fydd unrhyw grŵp blwyddyn sy'n uwch na'r nifer hwn ar y pwynt diwygio yn cael mwy o ddisgyblion os yw rhai'n gadael, gan ganiatáu i nifer y disgyblion leihau'n naturiol ac alinio â'r asesiad capasiti diwygiedig a'r Nifer Derbyn dros amser.

Ymdrinnir â thrafnidiaeth disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant

Ysgolion yr Awdurdod Lleol. Mae manylion Polisi Derbyn a Pholisi Trafnidiaeth Ysgol yr Awdurdod Lleol ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef erbyn 2 Mehefin 2026, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.  Dylid anfon gwrthwynebiadau at:

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adeiladau'r Goron
31 Stryt Caer
Wrecsam
LL13 8BG

Neu drwy e-bost i: PenygelliConsultation@wrexham.gov.uk

Llofnod: Karen Evans

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Dyddiedig: 30 Ebrill 2026

## NODYN ESBONIADOL

Nid yw hyn yn rhan o'r hysbysiad ffurfiol. Y bwriad yw rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i’r cynigion.

Mae'r ffactorau sydd wedi'u hystyried gan y Cyngor wrth benderfynu ymgynghori ar y cynnig hwn yn cynnwys:

- Gallu parhaus yr ysgol i ddarparu digon o leoedd i blant lleol.
- Darparu'r amgylchedd dysgu mwyaf priodol i bob disgybl i gefnogi gwelliant parhaus yr ysgol.
- Cynllunio a rheoli adnoddau yn y dyfodol.

Rhagwelir y bydd lefel y lleoedd gwag yn Ysgol Penygelli yn parhau. Nid oes data ar gael i awgrymu y bydd nifer y disgyblion sy'n gwneud cais i fynychu’r ysgol yn uwch na 30 mewn blynyddoedd i ddod.

Drwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y galw am leoedd ysgol yn Ysgol Penygelli drwy leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn yr ysgol o 45 i 30. Mae hyn yn golygu y bydd nifer y lleoedd sydd ar gael i blant yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2027, a phob rownd dderbyn ddilynol i’r dosbarth derbyn, yn 30. Yn ogystal, bydd nifer y lleoedd meithrin yn gostwng o 45 lle rhan-amser i 30 lle rhan-amser.

Yn ogystal, o fis Medi 2027, at ddibenion pontio yn ystod y flwyddyn, bydd nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn cael ei gapio ar y Nifer Derbyn diwygiedig o 30. Ni fydd unrhyw grŵp blwyddyn sy'n uwch na'r nifer hwn ar y pwynt diwygio yn cael mwy o ddisgyblion os yw rhai’n gadael, gan ganiatáu i nifer y disgyblion leihau'n naturiol ac alinio â'r asesiad capasiti diwygiedig a'r Nifer Derbyn dros amser.

Byddai’r newidiadau arfaethedig yn:

- Lleihau nifer cyffredinol y Cyngor o leoedd gwag yn ysgolion cynradd Wrecsam.
- Rhoi ateb priodol i ateb y galw lleol am leoedd ysgol yn yr ardaloedd lle mae'r ysgolion wedi'u lleoli.
- Cyfyngu ar yr effaith ar bob ysgol, yn lleol ac ar draws y sir.
- Cefnogi twf cynaliadwy addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor a Cymraeg 2050.
- Gwella safonau addysg ac, yn y tymor hwy, bod o fudd i bob disgybl yn yr ardal.